# CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd Nos Lun, 11eg Mawrth, 2024 yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 y.h. hyd 8.30 y.h.
Presennol: Y Cynghorydd Siôn Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Michael Strain, Carys E. Williams, Glenys Williams, Iwan James Williams
Ymddiheuriadau: Y Cynghorwyr Gwenan Griffiths, Efan Thomas
Y Cynghorydd Gareth Williams (Cynghorydd Pen Draw Llŷn ar Gyngor Gwynedd)

113. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**
**Estynnod** y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod.

114. **CADARNHAU COFNODION Y CYNGOR A GYNHALIWYD 12fed CHWEFROR, 2024**
**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 12fed Chwefror, 2024. (Cynigwyd gan Y Cynghorydd Glenys Williams ac eiliwyd gan Y Cynghorydd Dylan Parry Jones).
**MATERION YN CODI**
**Eitem 102 cymal (a) – is-gymal eitem 89 – Astudio'r Gymraeg**
Derbyniwyd llythyr cydnabod gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i'r llythyr anfonwyd ato ef a Phennaeth Addysg Cyngor Gwynedd ynglyn a'r Uned Iaith yn Llangybi.
**Eitem 109 – Manylion i'w rhoi i fyny yn yr hysbysfyrddau**
Dywedodd y Clarc iddi gysylltu a'r aelodau oedd yn absennol o gyfarfod mis Chwefror o'r Cyngor ac iddi gael caniatad gan bawb i gynnwys gwybodaeth amdanynt ar yr hysbseb oedd i'w gosod yn y tri hysbysfwrdd ym Motwnnog, Sarn a Bryncroes.
**Eitem 111 – Treth y Cyngor**
Derbyniwyd llythyr cydnabod gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd i'r llythyr anfonwyd ato ynglyn a'r pryder ym mis arfaethedig treth y Cyngor.

115. **CEISIADAU CYNLLUNIO**
Ni dderbyniwyd unrhyw gais i'w ystyried y mis hwn.

116. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**
(a) Gofyn i Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd roi sylw i'r gwellt sydd yn tyfu hyd ganol y ffordd o Bedair Croeslon i lawr am Ty Mawr Capel, Bryncroes.
(b) Gofyn i Mr. J.A. Pozzi dorri'r tyfiant ar Llwybr Bach, Botwnnog cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

117. **AGOR TENDRAU AM FARBIO TIROED Y CYNGOR**
**Adroddodd** y Clarc na fu i'r hysbyseb yn gwahodd tendrau ymddangos yn rhifyn mis Ionawr ac iddi dderbyn ymddiheuriad gan y Trefnydd Hysbysebion am hyn ac y byddai'r hysbyseb yn cael ei gynnwys yn rhif mis Chwefror. Ymddangosodd yr hysbyseb ond anffodus ni fu i ddyddiad cau gael ei gynnwys. Yn dilyn ymgynghoriad â'r Cadeirydd penderfynwyd gadael yr hysbyseb fel yr oedd.
Derbyniwyd tri ymholiad am fanylion y gwaith a rhoddwyd y dyddiad cau ddydd Gwener cyn y Cyngor ac i'r trydydd ymholiad ddaeth i fewn yn hwyr rhoddwyd y dyddiad cau ddiwrnod y Cyngor.
Un tendr dderbyniwyd ac agorwyd y cyfryw gan y Cadeirydd.

**Penderfynwyd** derbyn pris Mr. J.A. Pozzi, Ger Llwyn, Rhydyclafdy fel a ganlyn:

1. Barbio Mynwen y Cyngor yn Llandegwnning (y fynwent newydd lle mae ond ychydig o feddau yn y pen draw); y tyfiant i'w dorri bob tair wythnos yn ystod y tymor o fis Ebrill hyd Hydref, 2024; a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £550 + TAW.**
2. Barbio Comin Bryncroes (y tir islaw tai'r Cyngor) a'r Comin Bach am gyfnod o saith mis (Ebrill hyd Hydref, 2024); a'r gwellt i'w glirio oddi yno – **cyfanswm am wneud y gwaith yn £1,050 + TAW**
3. Pris yr awr am farbio Llwybrau cyhoeddus o fewn tiriogaeth y Cyngor ac hefyd unrhyw waith achlysurol fel bydd y gofyn - **£20.00 yr awr + TAW**

## 118. LLANASTR

**Tynnwyd** sylw at y llanastr a adewir hyd ochrau'r ffyrdd gan y lori ailgylchu – cyfeiriwyd yn arbennig at aelod o'r Cyngor yn teithio tu ôl i'r cerbyd o bentref Sarn Mellteyrn i fyny am Fotwnnog ac fel 'roedd papurau yn chwyrlio allan hyd yr ochrau. Deallir fod gweithiwr arall yn gorfod dod allan i glirio'r llanastr a adewir ar ôl.
**Penderfynwyd** tynnu sylw'r Swyddog ail gylchu at hyn.

## 119. TELEFFON

**Derbyniwyd** neges gan Y Cynghorydd Gwenan Griffiths (a oedd yn absennol ar y noson) at ddigwyddiad yn Neuadd Goffa Sarn y nos Sadwrn blaenorol pryd y bu i wraig gael ei tharo'n wael a'r trafferth gafwyd i geisio cael ambiwlans. Nid oedd y ffôn symudol yn gweithio'n dda ac yna pan gafwyd drwodd i'r Gwasanaethau roeddent eisiau cael y cod post a.y.
Dywedodd Y Cynghorydd Carys H. Evans ei bod hi eisioes wedi rhoi cyfeiriad a chod post ar y diffibliwr yng Nghongl Meinciau ac y gallai wneud hynny ar gyfer Neuadd Goffa Sarn a Chanolfan Wynnstay ym Mhenygroeslon. Diolchwyd iddi.
**Penderfynwyd** anfon at Gwmni EE yn gofyn iddynt edrych i fewn i'r diffyg derbyniad (reception) sydd ym Mhen Llŷn.

## 120. MEDDYGFA RHYDBACH

**Tynnodd** Y Cynghorydd Carys H. Evans sylw at y gwasanaeth amhrisiadwy gafwyd gan Dr. Morris, Rhian y Nyrs a staff y dderbynfa yn ystod gwaeledd diweddar ei merch.
**Penderfynwyd** anfon gair o werthfawrogiad i'r Feddygfa.

## 121. MENTER IAITH AR DAITH

**Adroddodd** Y Cynghorydd Carys H. Evans iddi fynychu un o'r sesiynau 'Menter Iaith ar Daith' yn ddiweddar. Diolchwyd iddi.

## 122. DIWEDDARIAD PROSIECT 'PERTHYN' LLYWODRAETH CYMRU – ARAL O ARWYDDOCAD IEITHYDDOL PEN LLŸN

**Derbyniwyd** y diweddariad uchod yn hwyr ddydd y Cyngor a **phenderfynwyd** fod y cyfryw i'w ystyried yng nghyfarfod mis Ebrill.

123. **AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Arfon Parry – Gwe-letya | £48.00 (200813) |
| Cyflog y Clarc | £420.00 (200812) |
| HMRC | £105.00 (200811) |
| Ad-dalu'r Clarc am y gliniadur a.y. | £646.88 (cynnwys TAW) (200810) |
| Mark Bryan am droslwyddo'r data | £75.00 (200814) |
| Hurio Ystafelloedd: | |
| Canolfan Bryncroes (2 waith) | £20.00 (200817) |
| Neuadd Goffa Sarn (3 gwaith) | £30.00 (200816) |
| Festri Capel Rhydbach, Botwnnog (3 gwaith) | £30.00 (200818) |
| Festri Capel Hebron, Llangwnnadl (3 gwaith) | £30.00 (200815) |

**Penderfynwyd** ymhellach yn wyneb fod yr HMRC angen cael datganiad yn fisol fod y Clarc i'w thalu yn fisol o fis Ebrill ymlaen.